Diweddariad Rheoli prosiect: Derbynwyr Grant Llwybr 1 – Ebrill 2024

Nodyn atgoffa i ddefnyddio'r ffurflen cais am newid

Er mwyn symleiddio'r broses rheoli prosiect, defnyddiwch y ffurflen cais newid yn eich ffolder adrodd i ofyn am y newidiadau gweithgaredd canlynol:

- Newid cyrchfan
- Newid hyd
- Newid niferoedd y cyfranogwyr

Mae canllawiau ar sut i gwblhau hyn hefyd i'w gweld yn eich ffolder adrodd. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os hoffech siarad ag aelod o'r tîm, e-bostiwch cefnogaeth@taith.cymru

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno eich cais, bydd y tîm yn adolygu'r rhain lle bo angen ac yn diweddaru eich teclyn cyfrifiannell byw at ddibenion monitro.

Meysydd adrodd wedi eu diweddaru yn y templed adrodd am gyfranogwyr

Yn ein bwletin blaenorol, dwedon ni y bydden ni'n diweddaru eich templedi adrodd i gasglu'r wybodaeth ganlynol:

- Sir
- Yn byw yng Nghymru
- Cod post

Byddwch chi'n gweld ein bod ni wedi ychwanegu'r meysydd Sir a Byw yng Nghymru at eich templed adrodd. Sylwch **na fyddwn** nawr yn casglu data ar godau post cyfranogwyr, felly nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y templed adrodd.

Os oeddech chi wedi cynnwys data am y Sir a Byw yng Nghymru cyn mis Hydref 2023, rydyn ni wedi ychwanegu'r data hwn yn ôl at eich offeryn adrodd. Os yn bosibl, a fyddech cystal â diweddaru'r ddwy golofn hyn gyda data o symudeddau blaenorol, os gwelwch yn dda? Bydd rhaid i chi gasglu'r data hwn ar gyfer yr holl symudedd cyfredol a mewnbynnu'r wybodaeth i'r adroddiad.

Archwiliad a Sicrwydd

Yn ddiweddar, rydym wedi ychwanegu adran archwiliad a sicrwydd at yr Ardal Derbynwyr Grant. Darllenwch drwy'r adran hon i gael gwell dealltwriaeth o'r gwiriadau archwiliad a sicrwydd y gall Taith eu cynnal. Mae'r adran yn cynnwys adran cwestiynau cyffredin a nodyn canllaw ar gyfer y gwahanol fathau o archwiliadau.

.

Fformat Bwletin newydd

Yn dilyn adborth o'n cyfarfod rhanddeiliaid ar 16 Ebrill 2024, rydym yn mynd i newid y ffordd rydyn ni'n anfon bwletinau misol Derbynwyr Grant. Byddwn ni'n symud i ddefnyddio Mailchimp (a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer ein cylchlythyrau chwarterol y gallwch gofrestru iddynt trwy ein gwefan) yn lle anfon e-bost

Rydyn ni'n teimlo y bydd hyn yn gwneud y cynnwys yn fwy deniadol ac yn haws ei ddarllen na'r fformat presennol, a byddwn ni'n edrych ar gyflwyno hwn ar gyfer bwletin mis Mai. Byddwch chi'n dod o hyd i opsiwn i ddad-danysgrifio yn Mailchimp, ond bydden ni'n gofyn yn garedig i chi beidio â dewis yr opsiwn hwn gan fod y wybodaeth yn ymwneud â chyflawniad eich prosiect y byddech mewn perygl o golli'r wybodaeth ddiweddaraf. Os byddwch chi'n dad-danysgrifio drwy gamgymeriad, bydd tîm Taith yn cysylltu i gynnig cymorth fel bod chi'n gallu parhâi i dderbyn y Bwletin Derbynwyr Grantiau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth mewn perthynas â'r newid hwn, yna cysylltwch â ni drwy cefnogaeth@taith.cymru

Arweiniad Cyfryngau Cymdeithasol

Dewch i ni gymdeithasu!

Rydym yn ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cyfleoedd newid bywyd rydyn ni'n trwy Taith. Fel gallwch chi weld yn ein strategaeth, mae Taith yn ariannu cyfleoedd cyfnewid addysgol rhyngwladol cynhwysol a hygyrch i ddysgwyr a staff ledled Cymru, gyda chyfleoedd i ddysgwyr a staff rhyngwladol ymweld â phartneriaid Cymreig. Trwy'r cyfryngau cymdeithasol rydyn ni'n gobeithio annog cyfranogiad gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol – gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydyn ni hefyd am bwysleisio pwysigrwydd dysgu a chynhwysiant i gynulleidfa eang.

Ond rydyn ni angen eich cymorth!

Rydyn ni am arddangos prosiectau sydd wir yn amlygu gwerth a phwysigrwydd Taith o ran darparu cyfleoedd i'r rhai sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf, yn ogystal â dangos sut y gall Taith wir wella'r addysg a'r dysgu ar gyfer cyfranogwyr o Gymru. I wneud hyn rydyn ni angen eich straeon a'ch profiadau. Felly, os oes gennych chi brosiect a bod gennych chi rywbeth i'w rannu, gwnewch hynny a dilynwch y canllawiau isod.

Arweiniad

Wrth rannu eich profiadau gyda ni trwy gyfryngau cymdeithasol, cofiwch y canlynol:

- tagiwch ni yn eich bob tro @**TaithWales**
- defnyddiwch #**Taith** a #**TaithStories** Gall hashnodau eraill (gallwch ddefnyddio lawer) fod yn berthnasol i'ch sector, cyrchfan neu brosiect. Gallai enghreifftiau gynnwys: #GwaithGwirfoddol #CwricwlwmiGymru #AddysgOedolion #Cymru #Newid Hinsawdd. Efallai y byddwch hefyd yn cysylltu'ch postiadau ag wythnos ymwybyddiaeth benodol neu ddigwyddiad cenedlaethol sy'n berthnasol i'ch sector sy'n ffordd wych o sicrhau'r cyrhaeddiad mwyaf posibl
- gall **X (Twitter yn flaenorol)** gynnwys diweddariadau byr ac aml. Er gwaethaf y nifer llai o nodau, mae X yn llwyfan gwych ar gyfer rhannu delweddau/fideo.
- mae **Instagram** yn ap rhannu lluniau a fideo. Mae hwn yn ofod gwych ar gyfer rhannu cynnwys fideo llawn a straeon am eich profiad a ariennir gan Taith. Os ydych yn postio am eich taith ar Instagram, mae croeso i chi gydweithio â Taith fel y gallwn rannu eich profiadau ag eraill ar ein tudalen. Gallwch chi wneud hyn trwy gymryd y camau y byddech chi'n eu gwneud fel arfer i bostio llun neu fideo, tapio "Tag people" ac yn lle tapio'r llun i dagio pobl, taro'r botwm "Invite collaborator". Ein cyfeiriad yw @taithwales.
- os ydych chi allan ar symudedd, mae croeso i chi bostio'n rheolaidd drwy gydol eich taith yn amlygu'r hyn rydych yn ei wneud/lle rydych yn ymweld.
- cofiwch fod angen i ni fod yn arddangos yr agwedd addysgol o'r profiad, ac mae'n bwysig cyfleu hyn yn eich postiadau cyfryngau cymdeithasol.

- ein nod yw ymgysylltu â chymaint o gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ag y gallwn ni, ond fyddwn ni ddim yn rhyngweithio ag unrhyw bostiadau amhriodol, er enghraifft, cyfeiriadau at alcohol.
- gan fod y cynnwys hwn yn cael ei greu gennych chi – ein Derbynwyr Grantiau – nid ydym yn disgwyl cynnwys hynod broffesiynol na gloyw. Po fwyaf naturiol a dilys yw'r naws, gorau oll.
- rhaid i **bob** delwedd/fideo a ddarperwch fod yn amodol ar ganiatâd priodol gan unigolyn neu grŵp o unigolion. Bydd gan bob ysgol a mwyafrif y sefydliadau dysgu eu gweithdrefnau caniatâd/caniatâd eu hunain yn eu lle y byddwch yn cadw atyn nhw wrth rannu cynnwys ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Bydd Taith yn darparu ffurflenni caniatâd ychwanegol lle bo angen.

Cyfrifoedd Cyfryngau Cymdeithasol Taith
X (Twitter) - @TaithWales
Facebook - www.facebook.com/TaithExchange
LinkedIn - www.linkedin.com/company/taithwales
Instagram - www.instagram.com/TaithWales/

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y cyfryngau cymdeithasol o amgylch eich symudedd neu brosiect Tatih, cysylltwch â cefnogaeth@taith.cymru

Rydym yn croesawu eich adborth

Rydym bob amser yn croesawu eich adborth am y prosesau a'r adnoddau mae Taith wedi eu creu i'ch cefnogi i gyflawni eich prosiectau - beth sy'n gweithio'n dda, beth allen ni ei wella, beth allen ni ei ddatblygu. Anfonwch eich syniadau atom ni drwy cefnogaeth@taith.cymru Os yw'n haws, byddwn ni'n hapus i drefnu galwad neu gyfarfod gyda chi.